

## LEWIS (TEULU), Van, Sir Forgannwg

Gellir trin y teulu blaenllaw hwn fel cyfangorff gan nad oedd yr un aelod ohono o bwys hanesyddol mawr. Yr oedd i'r teulu ddwy nodwedd - cart achau hir, a dawn arbennig i ychwanegu at y stad.

EDWARD LEWIS

oedd y cyntaf i fabwysiadu'r cyfenw. Efe a adeiladodd rannau hynaf Van, gerllaw Caerffili, ac a amgaeodd y parc o gylch y plasty. Prynodd y rhan o stad abaty Keynsham a oedd yn cynnwys maenor Roath-Keynsham. Bu'n siryf Morgannwg yn 1548, 1555, a 1559. Priododd Ann, merch Syr William Morgan, Pencoyd, sir Fynwy, aelod o [deulu Tredegar](#).

Bu THOMAS LEWIS, ei fab, yn siryf Morgannwg yn 1569. Ei wraig gyntaf ef oedd [Margaret Gamage, Coety](#), a oedd yn weddw [Miles Mathew, Llandaf](#), ar y pryd. Ychwanegodd at y Van ac adeiladodd d'r teulu yn S. Mary Street, Caerdydd; gorffennwyd tynnu'r t hwn yng Nghaerdydd i lawr yn 1865. Bu farw yng Nghaerdydd 2 Tachwedd 1594. Y mae'r 'inquisitiones post mortem' a gynhaliwyd ar ôl ei farw ef o gryn bwys i haneswyr lleol.

Ei fab hynaf ef oedd Syr EDWARD LEWIS (1560 - 1628), y g r a roes fywoliaeth Llanfaches i [William Wroth](#), a fu'n siryf Morgannwg yn 1601 a 1612 ac a urddwyd yn farchog yn 1603. Bu'n ymgyfreithio'n helaeth ac ychwanegodd lawer at y stad. Ei bryniad mwyaf diddorol ydoedd castell Sain Ffagan, a bwrcasodd gan [Syr William Herbert, Caerdydd](#), yn 1616 - Amgueddfa Werin Genedlaethol Cymru erbyn hyn; yr oedd yr hyn a brynwyd yn cynnwys y plasty presennol a adeiladwyd gan Dr. John Gibbon c. 1590. Bu farw 9 Ionawr 1628.

Cafodd yr ail Syr EDWARD LEWIS hefyd ei urddo'n farchog yn 1603. Yr oedd ef yn byw yn Edington, Wiltshire, eiddo y cymerodd brydles arno. Yr oedd yn ' Gentleman of the Privy Chamber ' i'r tywysog Harri, mab hynaf Iago I, yn 1610, ac yn ddiweddarach i'r tywysog Siarl. Bu farw yn Edington ar 10 Hydref 1630 - ddwy flynedd ar ôl marw ei dad.

Etifeddwyd y stad gan WILLIAM LEWIS (bu farw 1661), a briododd aeres stadau Brill a Bostal ac a ychwanegodd atynt. Yr oedd ef yn gryf o blaid y Senedd.

Y nesaf o'r teulu oedd EDWARD LEWIS (1650 - 1674); ganwyd 30 Gorffennaf 1650. Gadawodd ef y stad yn Sir Forgannwg i'w ewythr

RICHARD LEWIS (1623 - 1706),

gyda threfniant ei bod i ddisgyn o wryw i wryw ('in tail male'). Prynodd Richard Lewis faenor Corsham ac yno y claddwyd ef. Bu farw 7 Hydref 1706. Gwyddys iddo ef esgeuluso Van; y mae'n bosibl mai efe a ddechreuodd adael iddo ymddadfeilio.

Ei fab ef, THOMAS LEWIS (a fu farw 1736), oedd y ' Lewis o'r Van ' diwethaf. Nid oes sicrwydd ynghylch blwyddyn ei eni, ond y mae'n ddiau i hynny ddiwydd cyn 1668. Bu'n aelod seneddol dros wahanol etholaethau am lawer o flynyddoedd. Bu farw ar 22 Tachwedd 1736 yn Soberton, Hampshire, eiddo ei wraig. Gadawodd unig ferch, ELIZABETH, yn aeres iddo; priododd hi Other Windsor, 3ydd iarl Plymouth.

## Awdur

Henry John Randall, (1877 - 1964)

## Ffynonellau

G. T. Clark, *Limbus patrum Morganiae et Glamorganiae being the genealogies of the older families of the lordships of Morgan and Glamorgan* (Llundain 1886)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733762](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

